Cyllid & Thollau EM

# *P11D Taflen Waith 6*
## *Taliadau lwfans milltiroedd a thaliadau ar gyfer teithwyr 2010-11*

### Nodyn i'r cyflogwr

Nid oes raid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon ond fe all fod yn ffordd ddefnyddiol i chi gyfrif y swm trethadwy i'w ddatgan ar ffurflen P11D pryd y taloch lwfans milltiroedd i gyfarwyddwr neu gyflogai a oedd yn defnyddio ei gerbyd/cherbyd ei hun ar gyfer teithio ar fusnes yn ystod y flwyddyn 2010-11 (hynny yw 6 Ebrill 2010 i 5 Ebrill 2011).

Darllenwch y P11D(Canllaw) a'r adran sy'n ymwneud â threthiant taliadau treuliau milltiroedd yn llyfryn CWG2.

Os defnyddiwch y ffurflen hon i gyfrifo'r swm trethadwy mewn perthynas â thaliadau milltiroedd, rhaid i chi hefyd lenwi ffurflen P11D. Cynghorir chi i gadw copi o bob taflen waith ar ôl ei llenwi oherwydd gallai hynny eich helpu i ddelio ag ymholiadau. Nid oes raid i chi roi copi o'r daflen waith i'r cyfarwyddwr na'r cyflogai nac i Swyddfa Cyllid a Thollau EM.

Defnyddir y gair cyflogai i gynnwys cyfarwyddwyr a chyflogeion drwy gydol y ffurflen hon.

### Manylion y cyflogwr

Enw'r cyflogwr

Cyfeirnod TWE y cyflogwr

### Manylion y cyflogai

Enw'r cyflogai

Cyfenw

Enw(au)

Rhif gwaith neu Adran

Rhif Yswiriant Gwladol

Mae'r cyfrifiad ar y daflen waith hon **ond** yn gymwys i symiau a dalwyd mewn gwirionedd i'r cyflogai mewn perthynas â chostau teithio ar fusnes. Fel arfer, dylai treth fod wedi ei didynnu wrth y ffynhonnell o unrhyw symiau a dalwyd i'r cyflogai at ddibenion mwy cyffredinol. Dylid nodi eitemau nad ydynt yn daliadau i'r cyflogai yn y blwch perthnasol ar ffurflen P11D (neu ffurflen P9D fel bo'n addas).

### 1 Taliadau lwfans milltiroedd a wnaed i'r cyflogai

Taliadau lwfans milltiroedd a wnaed i'r cyflogai yn 2010-11
*Dylech gynnwys yr holl symiau a dalwyd i'r cyflogai*

**A** £

**Llai**

Unrhyw symiau y didynnwyd treth ohonynt

**B** £

Lwfans milltiroedd net a dalwyd

**(A llai B) =** **C** £

### 2 Cerbyd a ddefnyddiwyd

| | Car neu fan | Beic modur | Beic |
|---|---|---|---|
| Y math o gerbyd *(ticiwch un blwch yn unig)* | ☐ | ☐ | ☐ |

Rhaid i chi ddefnyddio taflenni gwaith ar wahân os bu i'r cyflogai ddefnyddio mwy nag un math o'r cerbydau uchod. Os bu i'r cyflogai ddefnyddio mwy nag un cerbyd o'r un math, mae'r cyfrifiad yr un peth â phe bai'r cyflogai ond wedi defnyddio un cerbyd a bydd ond angen i chi lenwi un daflen waith.

Cyfanswm y milltiroedd busnes a deithiwyd gan y cyflogai yn 2010-11
*Dylech gynnwys yr holl filltiroedd a deithiwyd yn y math uchod o gerbyd a oedd yn cyfrif fel milltiroedd busnes at ddibenion treth, hyd yn oed os nad ydynt yn filltiroedd yr ydych yn talu ar eu cyfer o dan eich cynllun taliadau mllltiroedd*

**D**

### 3 Tabl cyfraddau milltiroedd

| Cerbyd a ddefnyddiwyd | **1** Y 10,000 milltir cyntaf ar fusnes yn 2010-11 | **2** Pob milltir dros 10,000 milltir yn 2010-11 |
|---|---|---|
| Ceir a faniau | 40c | 25c |
| Beiciau Modur | 24c | 24c |
| Beiciau | 20c | 20c |

***Trowch drosodd***



CThEM 07/10. L22432

## 4 Taliadau Lwfans Milltiroedd a Awdurdodwyd (AMAPS)

Cyfraddau milltiroedd ar gyfer y math o gerbyd a ddefnyddiwyd
*Defnyddiwch y cyfraddau priodol fel y dangosir yn y tabl yn adran **3** ar dudalen **1**. Nodwch y gyfradd am y 10,000 milltir cyntaf ar fusnes ym mlwch **1** a'r gyfradd am bob milltir ar fusnes dros 10,000 ym mlwch **2***

| 1 | 2 |
|---|---|
| c | c |

10,000 milltir cyntaf ar fusnes
*Os yw blwch **D** yn fwy na 10,000 nodwch 10,000 ym mlwch **E**, fel arall nodwch y ffigur o flwch **D***

E [ ] X blwch **1** = F £ [ ]

Gweddill y milltiroedd ar fusnes
*Os yw blwch **D** yn fwy na 10,000 nodwch yr hyn sydd dros 10,000 ym mlwch **G**, fel arall gadewch yn wag*

G [ ] X blwch **2** = H £ [ ]

Cyfanswm y taliadau lwfans milltiroedd a awdurdodwyd
*Yr uchafswm y gellir ei gyfrif fel taliadau lwfans milltiroedd a awdurdodwyd (AMAPS) rhydd o dreth am y math o gerbyd a nodwyd yn adran **2***

**(F + H) =** J £ [ ]

Cymharwch y symiau ym mlwch **C** a blwch **J**

- Os yw'r cyfanswm ym mlwch **J** yr **un fath â'r** swm ym mlwch **C**, mae'r swm cyfan ym mlwch **C** yn rhydd o dreth. **Nodwch 0 (sero) ym mlwch N yn adran 6.**
- Os yw'r cyfanswm ym mlwch **J** yn **fwy na'r** swm ym mlwch **C**, mae'r swm cyfan ym mlwch **C** yn rhydd o dreth. **Nodwch 0 (sero) ym mlwch N yn adran 6.** Mae'n bosib y gall eich cyflogai gael rhyddhad treth ar y gwahaniaeth.
- Os yw'r cyfanswm ym mlwch **J** yn **llai na'r** swm ym mlwch **C**, **nodwch yr hyn sydd drosodd (blwch C llai blwch J) ym mlwch N yn adran 6.**

## 5 Taliadau ar gyfer teithwyr Llenwch yr adran hon unwaith yn unig, pa faint gymaint o daflenni gwaith a ddefnyddir

Cyfanswm unrhyw daliadau ar gyfer teithwyr a dalwyd i'r cyflogai yn 2010-11
*Rhaid i'r taliadau fod wedi'u gwneud **yn benodol** ar gyfer cludo cyd-gyflogai ar siwrnai fusnes gymwys mewn car neu fan.*

K £ [ ]

Nifer y milltiroedd busnes y gwnaethpwyd taliadau ar gyfer teithwyr

L [ ] X **5c** = M £ [ ]

Cymharwch y symiau ym mlwch **K** a blwch **M** a nodwch y symiau canlynol yn adran 6 isod

- Os yw'r cyfanswm ym mlwch **M** yr **un fath â'r** swm ym mlwch **K**, mae'r swm cyfan ym mlwch **K** yn rhydd o dreth. **Nodwch 0 (sero) ym mlwch P yn adran 6.**
- Os yw'r cyfanswm ym mlwch **M** yn **fwy na'r** swm ym mlwch **K**, mae'r swm cyfan ym mlwch **K** yn rhydd o dreth. **Nodwch 0 (sero) ym mlwch P yn adran 6.** Nid oes rhyddhad treth ar gael ar gyfer y gwahaniaeth.
- Os yw'r cyfanswm ym mlwch **M** yn **llai na'r** swm ym mlwch **K, nodwch yr hyn sydd drosodd (blwch K llai blwch M) ym mlwch P yn adran 6.**

## 6 Y cyfanswm trethadwy

Taliadau trethadwy o adran **4** N £ [ ]
**plws**
Taliadau trethadwy ar gyfer teithwyr o adran **5** P £ [ ]

Cyfanswm taliadau trethadwy **(N + P) =** Q £ [ ]

Y swm ym mlwch **Q** (pan yn fwy na sero) yw'r hyn sydd dros y symiau rhydd o dreth ar gyfer 2010-11. Nodwch y swm hwn yn Adran **E**, blwch 12 ar ffurflen P11D. Os mai sero yw'r swm ym mlwch **Q** nid oes raid i chi ddatgan hyn ar ffurflen P11D.

Os gwnaethoch dalu lwfans milltiroedd i'ch cyflogai ar gyfer mwy nag un math o gerbyd yn ystod 2010-11 ac wedi llenwi mwy nag un Daflen Waith, adiwch ynghyd y symiau ym mlwch **Q** ar bob Taflen Waith a nodwch y cyfanswm yn Adran **E**, blwch 12 ar ffurflen P11D. Os mai sero yw cyfanswm y symiau yn **Q** nid oes raid i chi ddatgan hyn ar ffurflen P11D.